# Adroddiad Blynyddol Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru 2021

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 35/2022

Dyddiad Cyhoeddi 10/05/2022

© Hawlfraint y Goron 2022

ISBN Digidol: 978-1-80364-086-0

the research solution

# Cydnabyddiaeth

Hoffem gydnabod cefnogaeth a chymorth gan weithredwyr yn y sector llety sy'n cyflwyno eu data i Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru bob mis.  Heb eu cyfraniad nhw, ni fyddai'r data a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn bosib.

# Rhagair

Mae arolwg defnydd llety gwesty â gradd wedi'i gynnal yn barhaus ers 1972 i fonitro lefelau o alw am ystafelloedd gwesty a gwelyau yng Nghymru. I gydymffurfio â gofynion Cyfarwyddyd yr UE ar Ystadegau Twristiaeth, estynnwyd yr arolwg hwn ym 1997 i gynnwys yr holl lety â gwasanaeth, gan gynnwys tai llety, sefydliadau gwely a brecwast a llety â gwasanaeth heb ei raddio. Mae Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru yn rhan hanfodol o'r broses o gasglu gwybodaeth am dwristiaeth, llunio cynlluniau busnes a hysbysu strategaethau marchnata.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanarlwyo mewn fformatiau amrywiol ers 1987. Mae'r arolwg hwn yn cynnwys llety hunanarlwyo, cartrefi gwyliau carafanau, carafanau teithio a pharciau gwersylla. Yn ogystal, yn 2008, cafodd hosteli a thai bynciau eu cynnwys yng nghwmpas yr arolwg hefyd.

Mae hwn yn adroddiad crynhoi o Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru 2021, sy'n cynnig cymariaethau i flynyddoedd blaenorol lle bo'r rheini ar gael ac sy'n ystyried y ffaith fod llawer o fusnesau llety wedi gorfod cau dros dro am gyfnodau o sawl mis drwy gydol y flwyddyn [1]. Mae set lawn o dablau data sy'n dangos tueddiadau dros y 10 mlynedd diwethaf ar gael fel atodiad i'r adroddiad hwn.

[1] Gweler gwybodaeth bwysoli ar sleid 10

# Rhagair

Amcanion allweddol yr arolwg defnydd llety yw monitro a gwerthuso tueddiadau mewn perfformiad llety a llywio cynllunio a datblygu twristiaeth ranbarthol a chenedlaethol i Croeso Cymru a rhanddeiliaid twristiaeth eraill. At hynny, mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth fusnes i ddarparwyr llety a busnesau twristiaeth eraill i'w cynorthwyo i ehangu a datblygu.  Mae adroddiadau meincnodi sy'n dangos cymariaethau â darparwyr llety eraill ar gael i'r holl gyfranogwyr sy'n cyflwyno eu data bob mis, gan ddarparu gwybodaeth hynod ddefnyddiol i fusnesau.

**Newid i ddulliau adrodd am ddefnydd**

Ym mis Ionawr 2014, gwnaed newid i ddata defnydd gwestai wrth gynnwys data syndicetiedig am tua 100 o westai mwy (gyda 100+ o ystafelloedd) a ddarparwyd gan STR yn y cyfrifiad o ddefnydd gwestai cyffredinol yng Nghymru. Mae'r data hyn wedi'u cynnwys ers 2014. Mae cynnwys y data hyn yn gwneud yr arolwg yn fwy cadarn ond yn effeithio ar dueddiadau cyn 2014.  Ysgrifennwyd y darn am westai yn yr adroddiad hwn gan STR i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol cyffredinol.

# Rhagair

**TERMINOLEG**

**Defnydd ystafelloedd** - Nifer yr ystafelloedd a oedd yn llawn yn ystod y mis, wedi'i mynegi fel canran o gyfanswm nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael yn ystod y mis (gan ystyried unrhyw gau neu gynnydd dros dro yn nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael bob nos).

**Defnydd Gwelyau** - Nifer yr arosiadau dros nos yn ystod y mis, wedi'i mynegi fel canran o gyfanswm nifer y gwelyau a oedd ar gael yn ystod y mis (gan ystyried unrhyw newidiadau dros dro yn nifer y gwelyau a oedd ar gael bob nos).

**Defnydd Unedau** - yn cael ei fesur trwy gysylltu nifer yr unedau a osodwyd i gyfanswm nifer yr unedau a oedd ar gael i'w gosod ystod y cyfnod hwnnw.

# Cyd-destun

Gwnaeth 2021 ddechrau gyda busnesau'n cau dros dro ar draws yn y sector llety gyda chyfyngiadau clo COVID-19 ar waith. Parhaodd i gael effaith sylweddol ar dwristiaeth ddomestig a rhyngwladol. Yng Nghymru, effeithiwyd ar lety ar draws pob is-sector er nad i'r graddau a welwyd yn 2020.

Yn ystod tri mis cyntaf 2021 caewyd llety ac eithrio gweithwyr hanfodol. Ar 27 Mawrth 2021 – Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i godi cyfyngiadau teithio o fewn ei ffiniau a chaniatawyd i lety twristiaid hunangynhwysol heb wasanaethau a rennir ailagor.

Caniatawyd i lety ymwelwyr gyda gwasanaethau a rennir ailagor ar 17 Mai ac roedd ymwelwyr unwaith eto yn gallu teithio ac aros dros nos yng Nghymru.

Gwnaeth misoedd yr haf weld cynnydd mewn gwyliau gartref gyda chyfyngiadau teithio rhyngwladol yn dal i fod mewn grym ar draws llawer o wledydd, gan helpu **rhai** busnesau llety i ddychwelyd i lefelau a welwyd cyn y pandemig.

Gydag amrywiolyn newydd o COVID-19 wedi'i ganfod (Omicron) yn ystod mis Tachwedd, gwnaeth llawer o fusnesau weld archebion yn cael eu canslo yn ystod mis Rhagfyr. Ar draws pob sector, teimlwyd yr effaith a chyfyngiadau pellach a lefel rhybudd 2 COVID-19 ar waith o 26 Rhagfyr 2021, gan gyfyngu ar nifer y bobl mewn cynulliadau cymdeithasol, a dychwelyd pellter cymdeithasol dau fetr.

# Cyd-destun (parhad)

Dylid nodi, oherwydd effeithiau'r cyfyngiadau symud ar gasglu data, nad yw pob un o'r siartiau ym mhob adran yn seiliedig ar yr un cyfnodau neu fetrigau ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data sy'n seiliedig ar gyfnodau o 8 neu 12 mis, yn dibynnu ar y maint sylfaen y data sydd ar gael. Yn y sector gwestai, nid oedd yn bosib dangos dadansoddiad 12 mis ar gyfer 2021. Mewn rhai o'r dadansoddiadau roedd bylchau data ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth ar gyfer un neu fwy o'r categorïau dadansoddi. Mewn sectorau eraill, mae'r siartiau'n seiliedig ar gyfartaledd llawn dros 12 mis er bod sefydliadau ar gau am rannau o'r flwyddyn, oherwydd bod y cyfartaledd defnydd blynyddol yn pwysoli'r holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau hynny a oedd ar agor yn gyfartal.

Mae'r data yr adroddwyd arno yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddefnydd net sy'n cyfeirio at y busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata yn ystod y cyfnod hwn yn unig. Mae hyn yn golygu y gall y data fod yn llai dibynadwy nag mewn blynyddoedd blaenorol a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn bwysig ar gyfer deall patrymau a thueddiadau defnydd yn ystod y flwyddyn.

# Methodoleg

Mae The Research Solution Ltd wedi bod yn coladu data i Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru ers 2013, gyda data gwestai ychwanegol gan STR wedi'i gynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol ar gyfer llety gwesty.   Arolwg misol ar-lein yw'r arolwg hwn, sy'n defnyddio data a gasglwyd drwy RIBOS, y porth gwe ar-lein.  Hefyd, caiff data ei dderbyn drwy e-bost yn Excel/Word, drwy'r post a thros y ffôn.  Mae sawl asiantaeth fawr yn darparu data hunanarlwyo a darperir data hefyd gan y Clwb Carafanau a Gwersylla a'r YHA.

Ar ddechrau pob mis, anfonir e-bost at yr holl gyfranogwyr ar-lein ac e-bost gyda negeseuon atgoffa dilynol drwy e-bost neu dros y ffôn pythefnos ar ôl y cyswllt cychwynnol.  Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn amrywio yn ôl sector, fel a ganlyn:

| **Llety â Gwasanaeth** | **Hunanarlwyo** | **Parciau Carafan/Gwersylla** | **Hosteli** |
|---|---|---|---|
| Nifer yn cyrraedd | Unedau | Nifer y lleiniau | Nifer yn cyrraedd o'r DU/Tramor |
| Gwesteion (gan gynnwys busnes) | Nifer y nosau a osodwyd | Lleiniau a osodwyd | Gwesteion (DU/Tramor) |
| Ystafelloedd yn cael eu defnyddio | Tariff | Tariff fesul llain | Gwelyau ychwanegol (os o gwbl) |
| Gwelyau ac ystafelloedd ychwanegol yn cael eu defnyddio (os o gwbl) | Maint y parti | | |
| Nifer y gwesteion o dramor | | | |
| RevPAR | | | |

Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data gwestai a thai llety/gwely a brecwast â blynyddoedd blaenorol.  Gweler sleid 11 am ragor o wybodaeth.

# Methodoleg

Pan gaiff y data misol ei dderbyn, caiff y data ei ddadansoddi ac mae canlyniadau wedi'u cydgrynhoi ar gael ar gyfer yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan. Gall cyfranogwyr weld eu canlyniadau nhw gyda'r opsiwn i'w gymharu â darparwyr llety eraill yn eu grŵp o gymheiriaid.

Er bod y sampl cyfartalog yn y sector â gwasanaeth wedi aros yn weddol gyson, mae'r sector hunanarlwyo wedi gweld gostyngiad o dros 50% o ganlyniad i'r ffaith nad oedd un asiantaeth fawr wedi darparu data yn ystod 2021. Mae hyn wedi effeithio'n fawr ar y sampl yn y sector hwn ac yn arbennig, ar draws De-ddwyrain Cymru. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn yr adran hunanarlwyo yn yr adroddiad hwn. Ceir dadansoddiad misol llawn o feintiau samplau fesul sector yn Atodiad 2.

Dangosir y sampl gyfartalog flynyddol gyffredinol ar gyfer pob sector isod:

| Sector | Cyfartaledd Blynyddol | |
|---|---|---|
| Gwestai | 132 | (29 drwy RIBOS, darparwyd 103 gan STR) |
| Gwely a Brecwast/Tai Llety | 11 | |
| Unedau Hunanarlwyo | 243 | 16% Annibynnol ac 84% gan asiantaethau mawr |
| Carafanau Teithio a Statig | 24 | Mai i Hydref (gan gynnwys meysydd gwersylla) |
| Hosteli/Tai bync | 15 | |

Caiff ffurflenni a gwblhawyd eu dychwelyd i The Research Solution i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Cafodd data am 2021 gyfan ei ail-ddadansoddi yn dilyn diwedd y flwyddyn i gynnwys data gwesty ychwanegol o STR ac unrhyw ffurflenni data a ddychwelwyd ar ôl cwblhau'r dadansoddiad misol.

Mae'r ffigurau a adroddwyd yn seiliedig ar yr ail-ddadansoddiad blynyddol ac felly mae'n bosib y bydd amrywiaeth rhwng y rhai hynny a'r rhai a gynhyrchwyd ar gyfer yr adroddiadau chwarterol.
Sylwer y dylid ystyried y meintiau sampl cymharol fach ar draws rhai o'r sectorau a ddangosir yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag amrywiadau misol yn y rhai sy'n darparu data, wrth gymharu data.

# Newid mewn Pwysoli

Yn ystod sawl mis o 2020 a 2021, nid oedd nifer sylweddol o westai a thai llety/gwely a brecwast ar agor oherwydd cyfyngiadau COVID-19 gan olygu mai dim ond nifer fach o westai a thai llety/gwely a brecwast a ddarparodd ddata, a effeithiodd ar y pwysiadau. Mae pwysoli data defnydd wedi'i gynllunio i addasu ar gyfer gwahanol lefelau ymateb ar draws rhanbarthau a bandiau maint ond pan fydd maint y sampl yn fach gellir gorliwio effaith y pwysiad ar gyfer rhai rhanbarthau neu fandiau maint. Yn ystod misoedd cyfyngiadau symud COVID-19 pan oedd maint samplau mewn rhai rhanbarthau mewn ffigurau sengl, byddai wedi cael yr effaith o wneud i sefydliadau unigol ddominyddu'r canlyniadau. Felly, mae'r data yn 2020 a 2021 yn cael ei gyflwyno heb ei bwysoli a dim ond yn adlewyrchu lefelau defnydd gwestai a thai llety/gwely a brecwast a oedd ar agor yn y mis perthnasol.  Oherwydd hyn, dylid nodi na ellir dehongli’r data defnydd gwestai a thai llety/gwely a brecwast a ddangosir yn yr adroddiad hwn ar gyfer 2020 a 2021 fel un sy’n cynrychioli’r farchnad llety â gwasanaeth yn ei chyfanrwydd, ac o ystyried y gwahaniaethau methodolegol, ni ellir ei gymharu â data 2018 a 2019 a ddangosir yn adrannau gwestai a thai llety/gwely a brecwast yr adroddiad hwn.

# Llety â Gwasanaeth

Mae’r rhan hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer Gwestai a sefydliadau Gwely a Brecwast/tai llety.

**Defnydd ystafelloedd** - nifer yr ystafelloedd a oedd yn llawn yn ystod y mis hwn, wedi’i mynegi fel canran o gyfanswm nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael

**Defnydd gwelyau** - nifer yr arosiadau dros nos yn ystod y mis hwn, wedi’i mynegi fel canran o gyfanswm nifer y gwelyau a oedd ar gael

# Cymru yng Nghyd-destun y DU

Gwnaeth gwestai yng Nghymru gyflawni defnydd ystafelloedd a gwelyau uwch yn 2021 o gymharu â 2020 gan fod effeithiau cyffredinol pandemig COVID-19 yn llai difrifol.

Yn 2021, roedd defnydd ystafelloedd yn gyffredinol yn 64%. Yn y cyfamser, roedd defnydd gwelyau, sef cyfran y gwelyau a oedd ar gael a werthwyd, yn 44%. Roedd y lefelau hyn yn is na lefelau perfformiad cyn-bandemig ond yn nodi gwelliant sylweddol o gymharu â 2020. Yn fwy penodol, gwnaeth defnydd ystafelloedd a gwelyau gynyddu gan 42% mewn termau cymharol o gymharu â 2020.

Gwnaeth gwestai yng Nghymru berfformio’n well na'r rhai yn Lloegr o ran defnydd ystafelloedd a gwelyau. Roedd y canfyddiad hwn yn gwrthdroi tueddiadau hanesyddol gan fod gwestai yn Lloegr yn draddodiadol wedi cyflawni defnydd uwch o ystafelloedd a gwelyau na'r rhai yng Nghymru. Bydd twristiaeth ddomestig gryfach oherwydd cyfyngiadau teithio rhyngwladol ac apêl gynyddol cyrchfannau gwledig, ymhlith ffactorau eraill, wedi cyfrannu at y canlyniadau hyn.

Mae'r data yr adroddwyd arno yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddefnydd net sy'n cyfeirio at y busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata yn ystod y cyfnod hwn yn unig.

**DU - Defnydd Gwesty (Blynyddol)[1]**

| | 2020 | 2021[2] |
|---|---|---|
| Yr Alban – defnydd ystafelloedd | 24% | - |
| Yr Alban – defnydd gwelyau | 15% | - |
| Gogledd Iwerddon – defnydd ystafelloedd | 27% | - |
| Gogledd Iwerddon – defnydd gwelyau | 22% | - |
| Lloegr – defnydd ystafelloedd | 41% | 54% |
| Lloegr – defnydd gwelyau | 29% | 39% |
| Cymru – defnydd ystafelloedd | 45% | 64%[3] |
| Cymru – defnydd gwelyau | 31% | 44%[3] |

[1]Ffynonellau: Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA), VisitScotland, VisitEngland.
[2]Dangosir data nad oedd ar gael i'r cyhoedd wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn gyda ‘-’.
[3]Cyfrifir defnydd ystafelloedd a gwelyau blynyddol cyfartalog gan ddefnyddio'r holl ddata a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn gyfan ond bydd meintiau samplau ar gyfer pob mis yn amrywio.

# Cymru yng nghyd-destun y DU - Refeniw

Yn 2021, gwnaeth gwestai yng Nghymru a Lloegr dyfu mewn dau fetrig perfformiad gwestai pwysig – cyfradd ddyddiol gyfartalog (ADR) a refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR) – o gymharu â 2020 wrth i'r sector adennill rhai o'r colledion oherwydd galw isel sylweddol a hir a mwy nag un cyfnod clo cenedlaethol yn 2020.

Yn gyffredinol, yng Nghymru roedd ADR yn £66.23 yn 2021 o gymharu â £52.84 yn 2020. Roedd hyn yn nodi cynnydd mewn termau cymharol o 25% o gymharu â 2020. Yn y cyfamser, gwnaeth RevPAR, metrig perfformiad gwesty arbennig o bwysig yn seiliedig ar refeniw ystafelloedd ac ystafelloedd sydd ar gael, gynyddu gan 87% o £22.71 yn 2020 i £42.38 yn 2021.

Gwnaeth gwestai yn Lloegr dyfu ADR a RevPAR yn llai serth yn 2021 o gymharu â'r rhai yng Nghymru. Roedd hyn yn debygol o fod o ganlyniad, yn rhannol o leiaf, i gynnydd llai serth yn y galw a ADR a RevPAR presennol uwch yn Lloegr o gymharu â Chymru. Yn gyffredinol, gwnaeth gwestai yn Lloegr weld twf ADR o 16% a thwf RevPAR o 52% o gymharu â 2020.

**Y DU – ADR & RevPAR Gwestai (Blynyddol)[4]**

| | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Lloegr – ADR | £73.69 | £85.55 |
| Lloegr – RevPAR | £30.05 | £45.81 |
| Cymru – ADR[6] | £52.84 | £66.23 |
| Cymru – RevPAR[6] | £22.71 | £42.38 |

[4]Ffynonellau: VisitEngland. Nodyn: Nid yw data ADR a RevPAR gwestai ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gael.
[5]Cyfrifir y gyfradd ddyddiol ar gyfartaledd (ADR) trwy rannu refeniw ystafell â nifer yr ystafelloedd sy'n cael eu gwerthu. Cyfrifir refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR) trwy rannu refeniw ystafell â nifer yr ystafelloedd sydd ar gael. Mae RevPAR yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel y mesur perfformiad gwestai mwyaf pwerus gan ei fod yn cyfrifo arenillion yn seiliedig ar bob ystafell westy (naill ai wedi'u gwerthu neu heb eu gwerthu) am unrhyw gyfnod o amser.
[6]Mae cyfartaledd blynyddol ADR a RevPAR yn seiliedig ar gymedr rhifyddol dros gyfnod o 12 mis.

# Cyd-destun Ewropeaidd Ehangach – Defnydd a Refeniw

Roedd tueddiad tebyg yn amlwg ymhlith gwestai ar draws Ewrop gan fod 2021 wedi profi i fod yn flwyddyn llai aflonyddgar ond yn dal i fod yn flwyddyn heriol o gymharu â 2020. Roedd defnydd ar draws y rhanbarth yn 2021 yn 43%, sef cynnydd o 31% mewn termau cymharol o gymharu â 2020.

Gwnaeth ADR a RevPAR dyfu hefyd o gymharu â 2020, gan gynyddu 10% a 44%, yn y drefn honno.

Oherwydd effeithiau difrifol a sylweddol parhaus COVID-19, arhosodd y lefelau perfformiad hyn ymhell islaw'r lefelau cyn-bandemig.

Roedd perfformiad gwledydd unigol yn amrywio wrth i'r pandemig effeithio'n wahanol ar wledydd a llywodraethau wedi gweithredu eu dulliau eu hunain i leihau risgiau heintiau. Rwsia, Twrci a'r DU oedd yr unig wledydd o blith 27 o wledydd a gafodd eu monitro i gyflawni dros 50% o ddefnydd ystafelloedd yn ystod y flwyddyn.[8] Yn y cyfamser, nododd gwestai yn Slofacia a'r Weriniaeth Tsiec y perfformiad gwannaf yn cyflawni defnydd ystafelloedd o lai na 30%.

Gwnaeth bron pob un o'r 27 gwlad weld twf defnydd ystafelloedd o gymharu â 2020, a'r unig eithriad oedd Slofacia, a chyflawnodd y mwyafrif dwf ADR. O ganlyniad, gwnaeth y rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd gofnodi twf RevPAR digid dwbl cryf o gymharu â 2020. Gwnaeth gwestai ym Malta a Croatia berfformio'n arbennig o dda gan gyflawni twf RevPAR yn agos at neu'n uwch na 100% o gymharu â 2020.

**Ewrop - Defnydd Gwestai, ADR a RevPAR (Blynyddol)**[7]

| | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Ewrop – Defnydd Ystafell | 33% | 43% |
| Ewrop – ADR | £80.69 | £88.91 |
| Ewrop – RevPAR | £26.72 | £38.49 |

[7]Ffynhonnell: Adolygiad o Westai Ewrop STR Rhagfyr 2021.
[8]Nodyn: Mae data gwestai'r DU yn seiliedig ar sampl STR o westai yn y DU sy'n wahanol i ddata gwestai'r DU a rennir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

# Cymru Gyfan – Tueddiadau Defnydd Gwestai

Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau defnydd ystafelloedd a gwelyau gwestai cenedlaethol a rhanbarthol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r metrigau hyn yn galluogi dealltwriaeth o lefelau twristiaeth mewn cyrchfannau dros amser. Gallant hefyd dynnu sylw at gyfleoedd i ysgogi twf twristiaeth ar wahanol adegau o'r flwyddyn trwy ymgyrchoedd a digwyddiadau.

Gwnaeth defnydd ystafelloedd gwesty a gwelyau adfer yn 2021 yn dilyn cwymp enbyd yn y galw yn 2020 oherwydd COVID-19.


Yn gyffredinol, roedd defnydd ystafelloedd a gwelyau yn 64% a 44%, yn y drefn honno, a oedd yn cynrychioli cynnydd o dros 40% mewn termau cymharol o gymharu â 2020.

Gwnaeth y lefel hon o berfformiad aros yn is na'r lefelau a gofnodwyd cyn y pandemig gan fod defnydd ystafelloedd rhwng 65% a 70% ac roedd defnydd gwelyau tua 50% rhwng 2017 a 2019.

Fodd bynnag, o gofio bod cyfnod clo cenedlaethol a chyfyngiadau teithio helaeth wedi bod ar waith am sawl mis yn 2021, roedd perfformiad defnydd yn gwneud yn dda o gymharu â 2019 a'r blynyddoedd blaenorol.

Mae'r data yr adroddwyd amdano yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddefnydd net sy'n cyfeirio at y busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata yn ystod y cyfnod hwn yn unig.

**Cymru Gyfan – Defnydd Gwestai (Blynyddol)**





* Nodyn: Oherwydd effaith COVID-19, mae data defnydd Cymru 2020 a 2021 heb eu pwysoli tra bod data Cymru 2017 i 2019 yn seiliedig ar fethodoleg sampl wedi'i phwysoli a ddefnyddiwyd hefyd mewn blynyddoedd blaenorol. Oherwydd y newid hwn yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol.

# Cymru Gyfan – Tueddiadau Defnydd Gwestai

Gwnaeth cyfyngiadau teithio, gan gynnwys gwaharddiad ar dwristiaeth ddomestig tan 27 Mawrth a llai o weithrediadau hamdden a lletygarwch, yn ystod pedwar mis cyntaf y flwyddyn arwain at gyfnod hir o ddefnydd isel o lai na 40% ar gyfer gwestai a arhosodd ar agor ac a ddarparodd ddata.

Gwnaeth gwestai elwa o gynnydd yn y galw wrth i gyfyngiadau gael eu lleddfu o ddiwedd mis Ebrill. Roedd hyn yn arbennig o gryf ganol mis Mai wrth i letygarwch dan do gael ei ailagor ac ailddechrau teithio rhyngwladol. Gwnaeth defnydd gyrraedd uchafbwynt ym mis Awst wrth i ddefnydd ystafelloedd gyrraedd 86% ac wrth i ddefnydd gwelyau gyrraedd 63%.

Roedd y tueddiad o fis Mai 2021 ymlaen yn adlewyrchu patrwm mwy nodweddiadol o alw a welwyd cyn COVID-19 wrth i natur dymhorol arwain at fwy o ddefnydd yn ystod misoedd yr haf ac yna leihad mewn defnydd yn ystod pedwar mis olaf y flwyddyn. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr cafodd cyfyngiadau Rhybudd Lefel 2 eu hailosod i leihau lledaeniad yr amrywiad Omicron. Gwnaeth hyn arwain at lai o fasnachu a defnydd ystafelloedd o 56% yn ystod y mis.




* Nodyn: Oherwydd effaith COVID-19, mae data defnydd Cymru 2020 a 2021 heb eu pwysoli tra bod data Cymru 2017 i 2019 yn seiliedig ar fethodoleg sampl wedi'i phwysoli a ddefnyddiwyd hefyd mewn blynyddoedd blaenorol. Oherwydd y newid hwn yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol.


# Rhanbarthau Cymru – Tueddiadau yn y Defnydd o Westai

Gan edrych ar gyfnod amser o wyth mis – Mai i Ragfyr 2021 – lle mae data cymaradwy, y rhanbarthau a berfformiodd orau oedd Gogledd a De-orllewin Cymru yn cyflawni defnydd ystafelloedd o 79% a 76%, yn y drefn honno.

Yn y cyfamser, gwestai yn y Canolbarth a De-ddwyrain Cymru a gyflawnodd y defnydd ystafelloedd isaf, sef 69%. Ar gyfer yr olaf, cyflawnodd y gwestai hyn y defnydd gwelyau isaf o 48% ymhlith y pedwar rhanbarth dros y cyfnod wyth mis yn 2021. Gwnaeth y diffyg galw am gyfarfodydd corfforaethol, cymhelliant, cynadleddau ac arddangosfeydd (MICE) barhau i leihau perfformiad gwestai yng Nghaerdydd yn 2021 a arweiniodd, ymhlith ffactorau eraill, at y canlyniad hwn.

Roedd y tueddiad cyffredinol yn 2021 yn gyson â 2020, gan mai gwestai yng Ngogledd a De-orllewin Cymru a gyflawnodd y defnydd ystafelloedd uchaf y llynedd ac, i'r gwrthwyneb, gwestai Canolbarth a De-ddwyrain Cymru a gofnododd y defnydd ystafelloedd isaf.

**Rhanbarthau Cymru – Defnydd Gwestai (Cyfnod 8 mis fesul rhanbarth Cymru)**





Nodyn: Nid yw'r siart yn cynnwys data Ionawr i Ebrill 2021 er mwyn galluogi cymhariaeth gyson ar draws rhanbarthau.
Oherwydd effaith COVID-19, nid yw data defnydd Cymru 2021 wedi'i bwysoli

# Cymru Gyfan - Tueddiadau Defnydd Gwestai

Gwnaeth gwestai mwy gyda mwy na 100 o ystafelloedd gyflawni llai o ddefnydd ystafelloedd a gwelyau o gymharu â gwestai llai gyda 100 neu lai o ystafelloedd.

Nid oedd llawer i wahanu perfformiad gwestai â 11-25 ystafell, y rhai â 26-50 o ystafelloedd a’r rhai â 51-100 o ystafelloedd, er bod yr olaf wedi cyflawni defnydd ystafelloedd fymryn yn uwch o 78%, yn seiliedig ar gyfnod amser o wyth mis o fis Mai i fis Rhagfyr 2021.

Gwnaeth gwestai gyda 11-25 ystafell weld y defnydd gwelyau uchaf o 60% sy'n awgrymu eu bod yn fwy tebygol o ddenu segmentau hamdden, sydd fel arfer yn aros mewn grwpiau o ddau neu fwy. Yn y cyfamser, gwestai gyda dros 100 o ystafelloedd a gyflawnodd y defnydd gwelyau isaf. Mae'r gwestai hyn yn fwy cyffredin yn denu gwesteion corfforaethol a busnes, sy'n tueddu i deithio ar eu pennau eu hunain, o'u cymharu â gwestai llai sy'n helpu i egluro'r canlyniad hwn.




Nodyn: Nid yw’r siart yn cynnwys data Ionawr i Ebrill 2021 er mwyn galluogi cymhariaeth gyson ar draws rhanbarthau. Oherwydd effaith COVID-19, nid yw data defnydd Cymru 2021 wedi’i bwysoli

# Cymru Gyfan – Tueddiadau Refeniw Gwestai


Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau perfformiad gwestai Cymru o ran dau fesur perfformiad ariannol allweddol a ddefnyddir gan weithredwyr gwestai: cyfradd ddyddiol ar gyfartaledd (ADR) a refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR).

Gwnaeth ADR gynyddu o £52.84 yn 2020 i £66.23 yn 2021 wrth i westai elwa ar alw cryfach o gymharu â 2020 oherwydd cyfyngiadau teithio llai llym a gwell teimlad ymhlith defnyddwyr, ymhlith agweddau eraill.

Fodd bynnag, roedd ADR yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn-bandemig. Yn ogystal, wrth ystyried effaith chwyddiant, a orffennodd y flwyddyn ar dros 5%, roedd gwir werth ADR yn 2021 hyd yn oed ymhellach islaw cyfraddau cyn-bandemig.

Roedd RevPAR, metrig perfformiad gwesty pwysig yn seiliedig ar refeniw ystafelloedd a'r ystafelloedd sydd ar gael, yn £42.38 yn 2021. Roedd hyn bron ddwywaith cyfradd 2020 ond eto roedd ymhell islaw lefelau cyn-bandemig.

**Cymru Gyfan – ADR & RevPAR Gwestai (Blynyddol)**





* Nodyn: Oherwydd effaith COVID-19, mae data defnydd Cymru 2020 a 2021 heb eu pwysoli tra bod data Cymru 2017 i 2019 yn seiliedig ar fethodoleg sampl wedi'i phwysoli a ddefnyddiwyd hefyd mewn blynyddoedd blaenorol. Oherwydd y newid hwn yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol.

# Cymru Gyfan – Tueddiadau Refeniw Gwestai

Yn gyson â'r tueddiad a drafodwyd yn gynharach ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau, roedd perfformiad refeniw ar ei isaf ymhlith y gwestai a oedd ar agor ac yn masnachu yn ystod pedwar mis cyntaf y flwyddyn. Roedd hyn oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol a gafodd ei leddfu o ddiwedd mis Mawrth 2021.

Gwnaeth gwestai nodi cynnydd mewn perfformiad wrth i gyfyngiadau leddfu yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth perfformiad refeniw gyrraedd ei anterth ym mis Awst gyda ADR yn £89.00 a RevPAR yn £76.99.

Gwnaeth perfformiad ADR a RevPAR ostwng o fis i fis yn ystod pedwar mis olaf y flwyddyn. Roedd hyn oherwydd llai o alw o ganlyniad i natur dymhorol. At hynny, gwnaeth ailosod cyfyngiadau oherwydd lledaeniad yr amrywiad Omicron arwain at ddirywiad mewn perfformiad ym mis Rhagfyr 2021 wrth i ADR a RevPAR orffen y flwyddyn ar £65.15 a £37.52, yn y drefn honno.



# Rhanbarthau Cymru – Tueddiadau Refeniw Gwestai


Gwnaeth gwestai yn Ne Ddwyrain Cymru weld cyfraddau ystafelloedd uwch na'r rhai yng Ngogledd a De Orllewin Cymru (£68.35 yn erbyn £64.81 a £59.74, yn y drefn honno).

Fodd bynnag, cyfrannodd y defnydd uwch a gyflawnwyd gan westai yng Ngogledd a De Orllewin Cymru at gynyddu RevPAR yn fwy nag ar gyfer y rheini yn Ne Ddwyrain Cymru. O ganlyniad, gwnaeth gwestai Gogledd Cymru gofnodi'r RevPAR uchaf o £45.72 ac yna'r rheini yn Ne Orllewin Cymru (£42.81) ac, yn olaf, y rhai yn Ne Ddwyrain Cymru (£41.49).

Roedd y canfyddiadau hyn yn gyson â'r llynedd. Gan edrych ar gyfnod o naw mis yn 2020 roedd gwestai Gogledd a De-orllewin Cymru ychydig yn well na'r rhai yn y De-ddwyrain yn RevPAR, er gwaethaf y ffaith bod gwestai'r De-ddwyrain wedi cyflawni'r ADR uchaf.

Nid oes digon o ddata refeniw gwestai i ddibenion adrodd ar gyfer Canolbarth Cymru.

**Rhanbarthau Cymru – ADR a RevPAR (2021 Yn ôl Rhanbarth Cymru)**




Nodyn: Mae cyfresi data coll yn dangos nad oes digon o ddata at ddibenion adrodd.

# Tai Llety/Gwely a Brecwast

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer lefelau defnydd gwely ac ystafelloedd ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast

Oherwydd maint sampl fisol isel yr arolwg Tai Llety/Gwely a Brecwast (yn amrywio rhwng 12 – 26), dylid bod yn ofalus wrth edrych ar ganlyniadau'r adran hon.


# Tueddiadau Tai Llety/Gwely a Brecwast Cymru


**Defnydd**

Roedd defnydd ystafelloedd a gwelyau blynyddol ar draws y sector tai llety/gwely a brecwast yn 60% a 50% yn y drefn honno, bron ddwywaith yr hyn a welwyd yn 2020. Yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn, gwelwyd defnydd ystafelloedd yn ystod misoedd Awst a Medi ar ei uchaf, sef 76% a 71% yn y drefn honno. Gwnaeth chwarter olaf y flwyddyn weld lefelau defnydd is, er nid ar y lefelau yn 2020 o hyd.

Oherwydd y cyfyngiadau parhaus ar ddechrau 2021 a chau busnesau llety dros dro, nid oedd data defnydd ar gael ar gyfer Ionawr, Chwefror a hyd at 27 Mawrth pan godwyd cyfyngiadau teithio yng Nghymru. Dylid nodi bod meintiau samplau yn 2021 yn fach iawn ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canlyniadau hyn. Cyflwynir y data ar gyfer 2020 a 2021 heb eu pwysoli ac ni ddylid eu cymharu'n uniongyrchol â ffigurau pwysol ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

**Cymru – Defnydd Tai Llety/Gwely a Brecwast (Blynyddol)***





* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data tai llety/gwely a brecwast â blynyddoedd blaenorol


# Cymru yng Nghyd-destun y DU

**Defnydd**

Fel y nodir ar sleid 23, roedd defnydd ystafelloedd a gwelyau blynyddol ar draws y sector tai llety/gwely a brecwast yn 60% a 50% yn y drefn honno, bron ddwywaith yr hyn a welwyd yn 2020. Dylid nodi bod meintiau samplau yn 2021 yn fach iawn ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canlyniadau hyn.

**Y DU – Defnydd Tai Llety/Gwely a Brecwast (Blynyddol)** [1]




* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data tai llety/gwely a brecwast â blynyddoedd blaenorol

[1]Ffynonellau: nid oedd ffigurau ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gael adeg llunio'r adroddiad hwn


# Rhanbarthau Cymru – Cyfartaledd Blynyddol a 3 Mlynedd


**Cymru – Defnydd Rhanbarthol Tai Llety/Gwely a Brecwast (Cyfartaledd Blynyddol a 3 Mlynedd)**

Yn ystod 2021, roedd lefelau defnydd ystafelloedd yng Ngogledd Cymru yn uwch (81%) na'r holl ranbarthau eraill, ac yna De-orllewin Cymru (60%) a Chanolbarth Cymru (55%). Roedd defnydd gwelyau yn dilyn patrwm tebyg ar draws y rhanbarthau. Ni ddangosir canlyniadau ar gyfer De-ddwyrain Cymru oherwydd maint sampl annigonol.

O 2016 i 2019, roedd defnydd ystafelloedd a gwelyau yn gyson ar draws yr holl ranbarthau. Gyda busnesau llety'n cau dros dro yn ystod tri mis cyntaf 2021, mae maint y sampl ar draws y sector tai llety/gwely a brecwast yn fach a chyflwynir data heb ei bwysoli fel blwyddyn unigol ar gyfer 2020 a 2021 yn hytrach na chyfartaledd 3 blynedd, felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn.

**Cymru – Tueddiadau Tai Llety/Gwely a Brecwast a Chyfartaleddau 3 mlynedd**




* Oherwydd newid mewn methodoleg yn 2020 a 2021, ni ellir cymharu data tai llety/gwely a brecwast â blynyddoedd blaenorol

# Llety Hunanarlwyo

Mae’r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer llety hunanarlwyo, gan gynnwys bythynnod, byngalos, cabanau gwyliau, tai a fflatiau ac mae’n crynhoi’r wybodaeth a gafwyd gan sampl o weithredwyr annibynnol dilys ac asiantaethau sy’n cynnig llety o’r math hwn. Dyluniwyd y sampl i fod yn gynrychioliadol i raddau helaeth o'r ystod o lety wedi'i ddodrefnu sydd ar osod trwy weithredwyr o'r fath. Bu gostyngiad yn nifer yr asiantaethau sy'n cyflenwi data ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn.

Mae defnydd yn cael ei fesur ar lefel yr eiddo unigol trwy fynegi nifer yr wythnosau sy'n cael eu gosod bob mis fel cyfran o'r wythnosau a'r unedau sydd ar gael i'w rhentu.

# Cymru – Tueddiadau Defnydd Hunanarlwyo


Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau defnydd unedau hunanarlwyo cenedlaethol a rhanbarthol dros gyfnod o 12 mis.

**Cymru (Gyfan)**

Yn wahanol i'r gwestai a'r tai llety/gwely a brecwast, roedd lefelau defnydd yn y sector hunanarlwyo yn ystod 2021 yn parhau i fod yn uwch nag erioed o'r blaen. Roedd defnydd unedau yn 61%, cynnydd o 9 pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol.

Roedd defnydd cyfartalog unedau rhwng Mai a Hydref yn 81%, cynnydd o 7 pwynt canran ar 2020. Fodd bynnag, dylid nodi bod ffigurau 2020 yn seiliedig ar nifer llai o fisoedd (4) na blynyddoedd blaenorol a gallant gyfrif am y cynnydd o 5 pwynt canran ers 2019.

Cymru – Defnydd Hunanarlwyo – Blynyddol a Mai i Hydref 2017 i 2021





*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod eiddo hunanarlwyo ar gau am rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd blynyddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.

# Hunanarlwyo – Tueddiadau Defnydd Uned

Gyda chyfyngiadau yn dal mewn grym yn ystod Ionawr, Chwefror a mwyafrif Mawrth 2021, gwellodd y sector hunanarlwyo yn dda ar ôl i gyfyngiadau gael eu codi. Cofnodwyd lefelau uchel o ddefnydd yn ystod cyfnodau brig Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi. Ym misoedd yr haf 2021 gwelwyd y lefelau defnydd uchaf, ac yn arbennig ym mis Awst (91%), yn debyg i 2020. Gwnaeth mis Hydref yn dda gyda defnydd unedau ar 74%, sef cynnydd o 23 pwynt canran o gymharu â'r un mis yn 2020.  Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, roedd lefelau defnydd ar eu hisaf ym mis Tachwedd (34%), ond yn cyrraedd 55% ym mis Rhagfyr.  Gydag effaith COVID-19 yn dal yn amlwg yn 2021, mae'r lefelau uchel o ddefnydd a gyflawnwyd yn ystod cyfnodau brig y flwyddyn yn darparu tystiolaeth o bwysigrwydd misoedd yr haf a thueddiadau tymhorol mewn defnydd hunanarlwyo yng Nghymru.

**Cymru – Defnydd Uned Hunanarlwyo Cyfartolog (misol) 2020 a 2021 ***





*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod eiddo hunanarlwyo ar gau am rai adegau o'r flwyddyn.  Mae'r defnydd blynyddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.

# Rhanbarthau Cymru

Ar draws y rhanbarthau, gwnaeth Gogledd Cymru weld y defnydd unedau uchaf ar 68%, i fyny 14 pwynt canran ar 2020, gyda De-orllewin Cymru yn dilyn yn agos, i fyny o 46% yn 2020 i 64% eleni. Gwnaeth Canolbarth Cymru weld gostyngiad mewn defnydd unedau, o 52% i 46%. Yn y cyfamser, cofnodwyd y defnydd uned isaf yn Ne Ddwyrain Cymru (18%). Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y defnydd o unedau yn Ne-ddwyrain Cymru yn ganlyniad i dynnu data yn ôl o un asiantaeth yn ystod 2021 ac mae wedi sgiwio'r canlyniadau. Felly, nid oes modd cymharu canlyniadau De-ddwyrain Cymru â'r rhanbarthau eraill yn 2021. Yn gyffredinol, parhaodd y sector hunanarlwyo i berfformio'n well na'r rhan fwyaf o sectorau eraill.

**Rhanbarthau Cymru – Defnydd Uned Hunanddarpar (Blynyddol) 2021***





**Oherwydd y newid ym mherchnogaeth asiantaeth hunanarlwyo fawr yn ystod 2021, ni ddarparwyd data am ran o'r flwyddyn ac adlewyrchir hyn yn y lefelau defnydd yn Ne Ddwyrain Cymru.

*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod eiddo hunanarlwyo ar gau am rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd blynyddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.

# Rhanbarthau Cymru

Mae defnydd unedau cyfartalog blynyddol mewn lleoliadau arfordirol wedi bod yn gyson uwch na lleoliadau mewndirol dros y 10 mlynedd diwethaf gyda 2020 yn eithriad i hyn pan gofnododd ddefnydd uned cyfartalog mewndirol ac arfordirol o 52%. Gwnaeth defnydd unedau hunanarlwyo yn 2021 gynyddu yn y ddau leoliad, gyda lleoliadau arfordirol i fyny 11 pwynt canran a lleoliadau mewndirol yn codi 8 pwynt canran o gymharu â 2020.




*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod eiddo hunanarlwyo ar gau am rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd blynyddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.


# Defnydd Hunanarlwyo Cymru yn ôl Tariff

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu cyfraddau defnydd unedol cyfartalog blynyddol fesul tariff ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2021.

**Cymru (Gyfan) – Cyfartaledd Blynyddol – 2017 - 2021**

Gwnaeth eiddo yn y band tariff £500-£799 weld y gyfradd defnydd unedau cyfartalog blynyddol uchaf (71%) yn 2021, yr uchaf ar draws pob un o'r pum mlynedd a chynnydd o bedwar pwynt canran ar ddeg o 2020. Gwnaeth y band pris isaf (hyd at £299) weld cynnydd sylweddol yn 2021, gyda defnydd unedau bron ddwywaith cymaint ag yn 2020. Canfuwyd y gyfradd defnydd uned gyfartalog flynyddol isaf (37%) yn y rhai a oedd yn codi rhwng £300-£499 –3 pwynt canran yn is na'r ffigur a gofnodwyd yn 2020 gyda gostyngiad cyson yn y defnydd o unedau ers 2017. Ac eithrio'r band pris £300-£499, gwelodd yr holl fandiau eraill gynnydd sylweddol mewn defnydd unedau yn ystod 2021.

**Defnydd Hunanarlwyo Cymru yn ôl Tariff – Cyfartaledd Blynyddol – 2017 - 2021**




Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu cyfraddau defnydd unedol cyfartalog blynyddol yn ôl tariff wythnosol / 7 noson ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2021

*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod eiddo hunanarlwyo ar gau am rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd blynyddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.

# Sector parciau gwyliau a meysydd gwersylla


Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer y sector parciau gwyliau a meysydd gwersylla gan gynnwys carafanau statig, cartrefi gwyliau, carafanau teithiol, cartrefi modur a phebyll.

Mae defnydd yn cael ei fesur trwy gysylltu nifer yr unedau a osodwyd yn ystod y cyfnod adrodd (Mai i Hydref) â chyfanswm y nifer sydd ar gael i'w gosod yn ystod yr amser hwnnw.

# Carafanau Statig a Thai Gwyliau – Defnydd Uned Mai - Hydref – Data Tuedd (2017 - 2021)


Gan ystyried y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y COVID-19, mae'r sector carafanau statig a chartrefi gwyliau wedi gweld twf parhaus dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2021 cyrhaeddodd y cyfartaledd tymhorol (Mai – Hydref) ar gyfer carafanau statig a chartrefi gwyliau 94%, i fyny 5 pwynt canran ar 2020 (89%) a'r lefel uchaf a gyflawnwyd trosodd yn y cyfnod dan sylw.

**Carafanau Statig a Thai Gwyliau Cymru – Defnydd Uned Tymhorol– 2017 - 2021**




# Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau – Defnydd Misol ac Uned – Mai - Hydref 2021

Roedd defnydd unedau cyfartalog ar gyfer y cyfnod adrodd (Mai i Hydref) yn 94%, cynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol. Yn yr un modd â sectorau eraill, oherwydd cyfyngiadau ar deithio dramor, arhosodd mwy o ymwelwyr yn y DU, gan arwain at gynnydd yn nifer y gwyliau a gymerir ledled Cymru.  Rhwng mis Mai a mis Hydref, gwnaeth Mehefin ac Awst weld lefelau defnydd ar gyfer carafanau statig a chartrefi gwyliau yn cyrraedd uchafbwynt o 96% gyda phob mis arall hefyd yn perfformio'n dda.



# Carafanau Statig a Thai Gwyliau – Defnydd Uned Mai - Hydref – Lleoliad (2017 – 2021)

Mae cyfraddau defnydd ar gyfer carafanau statig a thai haf mewn lleoliadau arfordirol wedi bod yn gyson rhwng un a dau bwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob uned. Cyfartaledd tymhorol 2021 (Mai – Hydref) ar gyfer carafanau statig a chartrefi gwyliau mewn lleoliadau arfordirol oedd 95%, y lefel uchaf yn y pum mlynedd diwethaf. Ers 2017, bu cynnydd cyson yn y defnydd o unedau mewn lleoliadau mewndirol gan godi o 57% i 81% yn 2021, cynnydd o 24 pwynt canran.




# Carafanau Teithiol a Gwersylla – Defnydd Lleiniau – Data Tuedd Mai – Hydref (2017 – 2021)

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cynnwys parciau sy'n cynnig lleiniau carafanau teithiol a gwersylla yng Nghymru. Defnydd lleiniau 2021 ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd (Mai i Hydref) oedd 46%.

Yn 2021, cyfartaledd defnydd lleiniau tymhorol ar gyfer meysydd carafanau teithio a gwersylla oedd 46%, cynnydd o 14 pwynt canran o gymharu â'r un cyfnod yn 2020. Mae cau meysydd carafanau a gwersylla dros dro oherwydd COVID-19 yn 2020 yn amlwg, gyda defnydd lleiniau blaenorol yn yr ystod o 40%-46% rhwng 2017 a 2019.


**Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla Cymru – Defnydd Lleiniau Tymhorol – Mai – Hydref 2017 - 2021**



# Carafanau Teithio a Gwersylla - Defnydd Lleiniau - Mai i Hydref 2021

Roedd lefelau defnydd lleiniau ar gyfer mis Mai yn 17%, gyda defnydd lleiniau mis Mehefin ddwywaith hyn ar 36%. Ym mis Awst gwelwyd y defnydd mwyaf o leiniau yn ystod y chwe mis o fis Mai i fis Hydref, gan gyrraedd uchafbwynt o 69% ar gyfer meysydd carafanau teithiol a lleiniau gwersylla. Dilynwyd hyn gan fis Gorffennaf (65%) gyda mis Medi hefyd yn perfformio'n dda (48%).

**Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla Cymru – Defnydd Lleiniau Misol Mai i Hydref 2021**





*Yn seiliedig ar gyfartaledd chwe mis oherwydd bod safleoedd carafanau teithio a pharciau gwersylla ar gau am adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd cyfartalog Mai i Hydref yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y cyfnod hwn am y parciau a oedd ar agor.

# Defnydd Carafanau Teithiol a Gwersylla – Lleoliad – Mai – Hydref (2017 – 2021)

Mae data defnydd ar gyfer parciau carafanau teithiol a gwersylla yn cael eu rhannu rhwng lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae'r siart yn dangos y cymariaethau o gyfartaledd Mai i Hydref rhwng lleoliadau mewndirol ac arfordirol ar gyfer y cyfnod 2017-2021.

Gwnaeth lleoliadau mewndirol weld lefelau ychydig yn uwch o ddefnydd lleiniau yn 2021 (46%) na'r rhai ar yr arfordir (44%), o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan welwyd y gwrthwyneb ar draws y gwahanol leoliadau. Roedd defnydd lleiniau ar gyfartaledd ar gyfer meysydd carafanau teithio a gwersylla yn 2021 yn 46%, cynnydd o 14 pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol a'r uchaf ers 2018. Yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw, mae lleoliadau mewndirol yn gyffredinol wedi perfformio'n well na'r rhai mewn lleoliadau arfordirol.

**Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla Cymru – Defnydd Lleiniau yn ôl lleoliad– Mai – Hydref (2017 – 2021)**



# Hosteli a Thai Bync Cymru


Mae’r adran hon yn cyflwyno’r perfformiad misol a blynyddol o ran defnydd gwelyau ar gyfer hosteli a thai bynciau ledled Cymru yn 2021.

Mesurir lefelau defnydd ar gyfer hosteli a thai bynciau drwy berthnasu nifer y gwelyau a osodwyd yn ystod y flwyddyn i gyfanswm nifer y gwelyau sydd ar gael yn ystod y cyfnod hwnnw.

# Hosteli a Thai Bync – Defnydd gwelyau Cymru Data Tueddiadau (2017 – 2021)

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o dueddiadau perfformiad hosteli a thai bync yn 2021.

Roedd defnydd gwelyau cyfartalog blynyddol yn 2021 yn 37%, sef cynnydd mewn lefelau defnydd o 12 pwynt canran o gymharu â 2020 (25%). Fodd bynnag, er bod y sector wedi dechrau gweld rhywfaint o welliant yn 2021, nid oedd lefelau defnydd yn y sector hosteli a thai bynciau yn dal i fod ar y lefelau a welwyd yn y tair blynedd cyn y pandemig COVID-19.





*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod hosteli a thai bync ar gau am rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd blynyddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.

# Hosteli a Thai Bync – Defnydd gwelyau Misol a Blynyddol – 2021

Gwnaeth defnydd cyfartalog gwelyau yn y sector hosteli a thai bync berfformio'n well na'r flwyddyn flaenorol yn 2021, i fyny o 25% i 37%, cynnydd o 12 pwynt canran, ond nid mor uchel o hyd ag yn 2019 (54%). Ym mis Awst gwelwyd y lefelau defnydd uchaf, gan gyrraedd uchafbwynt o 58%, ond gellir gweld effeithiau pandemig COVID-19 ar draws y sector gyda lefelau defnydd yn gyson is ar draws holl fisoedd y flwyddyn o gymharu â 2019.


**Hosteli a Thai Bync Cymru – Defnydd Gwelyau Misol a Blynyddol – 2021***




*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod hosteli a thai bync ar gau am rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd blynyddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.

# Hosteli a Thai Bync – Defnydd gwelyau – Fesul Lleoliad (2017 – 2021)

Roedd lefelau defnydd gwelyau mewn lleoliadau mewndirol wedi gwneud yn well yn gyson na'r rhai mewn lleoliadau arfordirol hyd at 2019, ond cafodd y rolau eu gwrthdroi yn 2020, gyda defnydd gwelyau mewn lleoliadau arfordirol yn 30%, sy'n uwch na lleoliadau mewndirol (22%). Yn 2021, gwnaeth lleoliadau mewndirol ac arfordirol berfformio ar yr un lefel gyda defnydd gwelyau mewn hosteli a thai bync yn 36% a 37% yn y drefn honno. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r sector hosteli a thai bync wedi teimlo effaith ddifrifol y cyfyngiadau a osodwyd oherwydd COVID-19 yn fwy nag unrhyw sector arall.



# Casgliadau

Parhaodd COVID-19 i achosi anawsterau i westai yng Nghymru a mannau eraill yn y DU a thu hwnt yn 2021. Gwnaeth cyfyngiadau teithio effeithio ar berfformiad yn ystod pedwar mis cyntaf y flwyddyn a chreodd ffactorau eraill, megis teithio rhyngwladol tawel a phryder defnyddwyr ynghylch y firws, gefndir heriol i westywyr yn ystod gweddill y flwyddyn.

Fodd bynnag, gwnaeth gwestai yng Nghymru adfer yn gryf yn 2021 wrth i ddefnydd gynyddu'n agos at lefelau cyn-bandemig, er yn is. Cynorthwywyd hyn yn rhannol o leiaf gan alw domestig cryf gan fod llawer o bobl ar eu gwyliau yn y DU wedi dewis archwilio rhanbarthau gwledig y DU yn hytrach na theithio rhyngwladol. Helpodd y tueddiad hwn i gefnogi twf ADR hefyd wrth i westai fanteisio ar alw cryf yn dymhorol yr haf, er bod perfformiad cyffredinol ADR a RevPAR yn is na lefelau cyn-bandemig.

Roedd gwestai yn Ne-ddwyrain Cymru yn elwa llai o wyliau gartref cynyddol o gymharu â rhanbarthau eraill. Effeithiwyd ar berfformiad yn y rhanbarth oherwydd ei ddibyniaeth draddodiadol ar deithwyr busnes a newid yn ymddygiad defnyddwyr wrth i deithwyr barhau i osgoi cyrchfannau trefol i raddau helaeth yn ystod y flwyddyn.

Gan ailadrodd y tueddiad a welwyd y llynedd, cafodd gwestai mwy gyda mwy na 100 o ystafelloedd ddefnydd sylweddol is na'u cymheiriaid gyda llai o ystafelloedd. Bydd yn ddiddorol monitro perfformiad gwestai o wahanol faint ynghyd â thueddiadau rhanbarthol yn 2022 a thu hwnt wrth i ddefnyddwyr barhau i addasu i fyw gyda'r feirws.

# Casgliadau

Gwnaeth y sector tai llety/gwely a brecwast berfformio'n llawer gwell yn 2021 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda lefelau defnydd ystafelloedd bron ddwywaith yr hyn a welwyd yn 2020.  Gyda chyfyngiadau yn dal mewn grym am ran o'r flwyddyn a'r amrywiolyn newydd o COVID-19 (Omicron) ar ddiwedd 2021, cafodd llawer o sefydliadau llai fel tai llety/gwely a brecwast eu taro'n galed gan y cyfyngiadau gyda llawer o ymwelwyr yn canslo teithiau yn ystod mis Rhagfyr a arweiniodd at fusnesau'n cau am y gaeaf yn gynt na'r arfer.

Mae'r sector hunanarlwyo yn parhau i wneud yn llawer gwell yn gyffredinol na'r sector â gwasanaeth gyda'r lefelau uchaf erioed o feddiannaeth.  Yn wahanol i'r sector â gwasanaeth, roedd unedau hunanarlwyo ar eu hennill oherwydd eu natur hunangynhaliol a gallai teuluoedd a ffrindiau aros gyda'i gilydd. Gyda chyfyngiadau ar deithio rhyngwladol, gwnaeth y cynnydd ym mhoblogrwydd y gwyliau gartref helpu'r diwydiant i adennill rhai o'r colledion yn 2020 gyda mwy o bobl yn mynd ar wyliau yng Nghymru yn ystod y flwyddyn.

Yn yr un modd, bu'r uchod hefyd o fudd i'r diwydiant gyda charafanau statig, cartrefi gwyliau, carafanau teithio a pharciau yn perfformio'n dda yn ystod 2021 ac yn cyflawni'r lefelau uchaf a gofnodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaeth y sector hosteli a thai bync teimlo effeithiau'r pandemig COVID-19 yn fwy nag unrhyw sector arall oherwydd y cyfyngiadau ar nifer y gwesteion o wahanol aelwydydd a all aros mewn ystafelloedd hostel, a adlewyrchwyd yn y gostyngiad mewn defnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

# Atodiad 1 – Amserlen 2021

- Mae cyfyngiadau clo (lefel rhybudd 4) yn parhau ym mis Ionawr a mis Chwefror 2021.
- 27 Mawrth 2021 – Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i godi cyfyngiadau teithio o fewn ei ffiniau. Caniateir i lety twristiaeth hunangynhwysol heb wasanaethau a rennir ail-agor.
- 12 Ebrill – Caniateir i bobl o Gymru deithio i rannau eraill o'r DU, a chaniateir i ymwelwyr o'r DU ymweld â Chymru.
- 26 Ebrill 2021 - gellir cynnal pyllau nofio awyr agored, atyniadau awyr agored, gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 30 o bobl a derbyniadau priodas ar gyfer hyd at 30 o bobl ynghyd ag ailagor lletygarwch awyr agored.
- 17 Mai 2021 - llety ymwelwyr gyda gwasanaethau a rennir, a lletygarwch dan do yn cael ei ailagor gyda thafarndai a bwytai yn cael gweini diodydd. Mae orielau ac amgueddfeydd hefyd yn cael eu hailagor.
- 7 Awst 2021 - Gyda rhai eithriadau, megis gwisgo masgiau gorfodol mewn rhai lleoliadau, mae'r rhan fwyaf o'r cyfyngiadau cysylltiedig â COVID-19 sy'n weddill yn cael eu codi yng Nghymru ac mae lefel rhybudd 0 bellach ar waith.
- 26 Rhagfyr 2021 – Cymru yn symud i Lefel Rhybudd COVID 2, lle mae cyfyngiadau ar nifer y bobl mewn cynulliadau cymdeithasol, a phellter cymdeithasol dau fetr yn dychwelyd.

# Atodiad 2: Sampl fisol yn ôl sector

| Tabl 1: Maint Sampl Fisol yn ôl Sector – Hydref – Rhagfyr 2021 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **GWESTAI** | *Ar agor* | *Ar gau* | **Tai Llety/ Gwely a Brecwast** | *Ar agor* | *Ar gau* | **HUNANAR-LWYO** | *Ar agor* | *Ar gau* |
| **Ion** | 50 | *131* | **Ion** | 3 | *25* | **Ion** | 69 | 533 |
| **Chwe** | 59 | *124* | **Chwe** | 3 | *25* | **Chwe** | 34 | 568 |
| **Maw** | 68 | *115* | **Maw** | 4 | *24* | **Maw** | 230 | 326 |
| **Ebr** | 129 | *43* | **Ebr** | 4 | *11* | **Ebr** | 275 | 28 |
| **Mai** | 155 | *18* | **Mai** | 14 | *3* | **Mai** | 306 | 6 |
| **Meh** | 157 | *18* | **Meh** | 15 | *3* | **Meh** | 306 | 4 |
| **Gorff** | 158 | *1* | **Gorff** | 15 | *2* | **Gorff** | 303 | 0 |
| **Awst** | 164 | *2* | **Awst** | 14 | *2* | **Awst** | 308 | 0 |
| **Medi** | 167 | *1* | **Medi** | 15 | *2* | **Medi** | 307 | 2 |
| **Hyd** | 162 | *1* | **Hyd** | 14 | *2* | **Hyd** | 305 | 2 |
| **Tach** | 161 | *3* | **Tach** | 12 | *5* | **Tach** | 223 | 83 |
| **Rhag** | 158 | *4* | **Rhag** | 11 | *7* | **Rhag** | 251 | 55 |

# Sampl fisol yn ôl sector

**Tabl 1: Maint Sampl Fisol yn ôl Sector – Hydref – Rhagfyr 2021**

| STATIG | *Ar agor* | *Ar gau* | TEITHIO | *Ar agor* | *Ar gau* | HOSTELI | *Ar agor* | *Ar gau* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ion** | 0 | *19* | **Ion** | 0 | *25* | **Ion** | 0 | *22* |
| **Chwe** | 0 | *19* | **Chwe** | 0 | *25* | **Chwe** | 0 | *21* |
| **Maw** | 0 | *19* | **Maw** | 0 | *25* | **Maw** | 2 | *20* |
| **Ebr** | 15 | *2* | **Ebr** | 8 | *7* | **Ebr** | 5 | *15* |
| **Mai** | 16 | *1* | **Mai** | 12 | *1* | **Mai** | 18 | *1* |
| **Meh** | 17 | *0* | **Meh** | 13 | *0* | **Meh** | 19 | *0* |
| **Gorff** | 18 | *0* | **Gorff** | 13 | *0* | **Gorff** | 18 | *0* |
| **Awst** | 18 | *0* | **Awst** | 12 | *1* | **Awst** | 18 | *0* |
| **Medi** | 19 | *0* | **Medi** | 11 | *1* | **Medi** | 19 | *0* |
| **Hyd** | 16 | *3* | **Hyd** | 9 | *6* | **Hyd** | 19 | *0* |
| **Tach** | 12 | *7* | **Tach** | 4 | *12* | **Tach** | 16 | *0* |
| **Rhag** | 0 | *19* | **Rhag** | 0 | *16* | **Rhag** | 19 | *0* |